



<b>CYFARFOD</b>	<b>Cydbwyllgor GwE</b>
<b>DYDDIAD</b>	08 Mawrth 2017
<b>TEITL</b>	<b>Cyllideb GwE 2016/17 – Adolygiad i 31 Ionawr 2017</b>
<b>PWRPAS</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2016/17.</li><li>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.</li></ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr adroddiad.
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

## 1. CASGLIAD

- 1.1 Mae adolygiad i 31 Ionawr 2017 yn amcangyfrif tanwariant net o (£54,688) yn erbyn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn gyllidol 2016/17.
- 1.2 Mae rhan ddilynol o'r adroddiad yn cynnwys eglurhad o'r prif rhesymau dros yr amcangyfrif tanwariant a'r gwahaniaeth i gymharu gyda'r adroddiad adolygiad blaenorol (i 30 Medi 2016) oedd yn amcangyfrif gorwariant net o £57,009.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

### 2.1 **Gweithwyr - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth:**

**Ionawr 2017: gorwariant £31,921. (Medi 2016: gorwariant £38,841).**

Prif reswm am y gorwariant yw'r penderfyniad i secondio swyddog ychwanegol i'r tîm data heb gyfraniad ariannol ychwanegol gan yr Awdurdodau yn y flwyddyn gyllidol 2016/17. Mi fydd yr Awdurdodau yn darparu cyfraniad ariannol ychwanegol parhaol o 2017/18.

Mae trosiant staff ychwanegol wedi arwain at leihad bychain yn y gorwariant ers yr adroddiad adolygiad blaenorol.

### 2.2 **Gweithwyr - Ymgynghorwyr Her:**

**Ionawr 2017: tanwariant (£133,789). (Medi 2016: tanwariant (£103,013)).**

Mae'r GwE yn derbyn cyfraniad gan rhai o'r grantiau tuag at eu costau Rheoli/Gweinyddu. Yn ystod y flwyddyn gyllidol 2016/17 ymdopir gydag elfen o'r gwaith grantiau oddi fewn adnoddau craidd.

Mae secondiadau staff i gynlluniau penodol a rhywfaint o drosiant ychwanegol, wedi arwain at gynnydd yn y tanwariant.

### 2.3 **Cludiant:**

**Ionawr 2017: tanwariant (£10,000). (Medi 2016: tanwariant (£10,000)).**

Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb, rhagwelir bydd hyn yn parhau yn 2016/17.

### 2.4 **Broceru:**

**Ionawr 2017: tanwariant (£74,000). (Medi 2016: dim gor na than wariant).**

Mae cynlluniau penodol, gan gynnwys rhai sydd yn cael ei ariannu drwy grantiau allanol, wedi targedu blaenoriaethau'r gwasanaeth fyddai fel arfer i'w weithredu o'r adnoddau yma. Golygai hyn danwariant ar y pennawd yn 2016/17.

### 2.5 **Arbedion i'w darganfod:**

**Ionawr 2017: gorwariant £131,180. (Medi 2016: gorwariant £131,180).**

Gorwariant gan nad oes strategaeth barhaol hyd yma ar gyfer gweithredu'r targed arbedion.

Gan ystyried oblygiadau ariannol net yr adolygiad ar gyfer gweddill penawdau'r gyllideb, yn unol â'r hyn grybwyllwyd yn y cyfarfod 24 Chwefror 2016 wrth ystyried cyllideb 2016/17, defnyddir rhan o'r gronfa wrth gefn ar gyfer unrhyw lithriad gydag amserlen gweithredu'r targed arbedion.

*Cyd Bwyllgor 24 Chwefror 2016*

*"3.2 Bydd angen clustnodi rhan briodol o'r gronfa ar gyfer unrhyw elfen o'r targed arbedion ni all GwE ei ddarganfod yn ystod 2016/17."*

### **3. CRONFA TANWARIANT**

- 3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2016/17 oedd (£460,379), llai defnydd o'r gronfa o £100,100 wedi ei ymrwymo ar ddiwedd 2015/16 ar gyfer rhaglen gefnogaeth TGAU, ychwaneger amcangyfrif tanwariant net o (£54,688), rhagwelir cyfanswm y gronfa ar ddiwedd 2016/17 yn (£414,967).

#### **ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2016/17 – Adolygiad i 31 Ionawr 2017.

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwau o safbwynt priodoldeb

#### **Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad.